



Ymgynghoriad Prisiau Tocynnau Haws

britainrunsonrail.co.uk/fares

**Male Sarongs,
Tab Clear,
Inflatable Chairs,
Pagers, Y2K,
Fare Regulations,
Dolly the Sheep,
Vanilla Ice,
& Eldorado**



**Some things belong
in the 90s, but rail
fare regulations need
a refresh.**

britainrunsonrail.co.uk/fares

Mae system brisiau tocynnau Prydain wedi methu â chadw i fyny gyda chynnydd technoleg fodern na sut mae pobl yn gweithio a theithio heddiw, a gyda gweithio rhan-amser a hunangyflogaeth wedi codi dros draean mewn 22 flynedd, nid yw'r cynhyrchion a gynigiwn yn cydweddu â'r hyblygrwydd hwnnw bob amser. Mae llawer o deithwyr yn gweld prisiau'n gymhleth a dryslyd gyda'r astudiaeth ddiweddaraf yn dangos mai dim ond tua thraean o gwsmeriaid rheilffordd sy'n hyderus iawn eu bod wedi prynu'r tocyn gwerth gorau ar gyfer eu taith ddiwethaf.

Gan weithio gyda'i gilydd, mae'r diwydiant rheilffordd yn dymuno cael diweddarau rheoleiddio prisiau tocynnau a gwerthu tocynnau, a amlinellwyd gyntaf yn 1995, fel y gallwn gynnig ystod o brisiau tocynnau sy'n haws i'w defnyddio a darparu gwelliannau mewn technoleg prynu tocynnau i'n cwsmeriaid.

Nid yw'r arolwg hwn, sy'n rhan o ymgynghoriad ar y cyd rhwng y diwydiant rheilffordd a'r pwyllgor gwarchod teithwyr Transport Focus, ynglŷn â'r diwydiant yn argymhell unrhyw newidiadau penodol ar yr adeg honmae'n ymwneud â chael eich barn ar y math o system a strwythur y dymunwch weld. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion i'r llywodraeth a fyddai, os cânt eu derbyn, yn gofyn i ni weithio gyda hwy i gyflawni. Bydd yn anelu at fod yn niwtral o ran refeniw sy'n golygu y byddai angen i unrhyw newidiadau i rai prisiau gael eu cydbwysu yn rhywle arall – mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych ar rai o'r cyfaddawdau ynghlwm â hyn.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn byddwn yn gofyn i chi am ddata personol gan gynnwys enw, cyfeiriad e-bost, cod post rhannol ac yn ddewisol ethnigrwydd ac unrhyw anabledd sydd gennych. Mae manylion llawn o ba ddata personol a gasglwn, sut rydym yn eu prosesu a sut y parchwn eich preifatrwydd i'w weld yn ein Polisi Preifatrwydd, ar gael yma: www.britainrunsonrail.co.uk/faresprivacypolicy.

Rhan 1: Strwythurau Prisiau

Gwyddom y gall prisiau rheilffordd fod yn ddryslyd i gwsmeriaid weithiau, ac mae gennym ddiddordeb yn eich barn ynglŷn â sut y dylai prisiau tocynnau rheilffordd gael eu strwythuro yn y dyfodol. I ba raddau ydych chi'n meddwl y dylai pob un o'r dewisiadau canlynol gael eu hystyried wrth ailstrwythuro prisiau tocynnau rheilffordd?

Wrth ateb y cwestiynau hyn cymerwch fod:

- *Pris tocyn rheilffordd ar gyfartaledd yn gyffredinol yn aros fel y mae yn awr.*
- *Gallai prisiau tocynnau gael eu strwythuro mewn ffordd wahanol (fel bod rhai pobl yn talu mwy, rhai yn talu llai, ac eraill yn talu'r un faint ag ar hyn o bryd).*
- *Nid yw'r ymgynghoriad yn argymhell unrhyw un o'r dewisiadau sy'n cael eu cyflwyno i chi, ond yn ceisio eich barn ar ystod o senarios. Mae'r holl ddewisiadau a gyflwynir yn gysyniadau eang fyddai angen eu hystyried a'u mireinio ymhellach.*

Prisiau tocynnau'n seiliedig ar y pellter a deithir (e.e. mae cost fesul milltir a deithir). Gallai hyn olygu bod rhai prisiau'n dod yn uwch nag yn awr a rhai'n dod yn is nag yn awr.

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ag ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Prisiau'n seiliedig ar y lefel o wasanaeth a dderbynnir (e.e. prisiau ar gyfer teithiau gyda gwasanaeth o ansawdd is – fel trenau arafach, llai rheolaidd a mwy sylfaenol – yn is na phrisiau ar gyfer teithiau gyda gwasanaeth o ansawdd uwch). Gallai hyn olygu bod rhai prisiau tocynnau'n dod yn uwch nag yn awr a rhai prisiau tocynnau'n dod yn is nag yn awr.

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ag ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Prisiau tocynnau lle mae'r gost yr un peth ar bob adeg o'r dydd a phob dydd o'r wythnos (e.e. mae prisiau yr un peth ar adegau prysur (brig) a llai prysur (allfrig)). Gallai hyn olygu bod prisiau tocynnau ar adegau allfrig yn dod yn uwch nag yn awr a phrisiau tocynnau ar adegau brig yn dod yn is nag yn awr. O ganlyniad gallai trenau yn ystod cyfnodau brig fod yn brysurach nag yn awr.

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ag ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Prisiau tocynnau'n seiliedig ar amser archebu (e.e. mae prisiau tocynnau wedi eu harchebu cyn diwrnod y teithio yn is na'r prisiau tocynnau sydd ar gael ar ddiwrnod y teithio). Gallai hyn olygu bod prisiau tocynnau i gwsmeriaid sy'n archebu ar ddiwrnod y teithio yn dod ychydig yn uwch nag yn awr.

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ag ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Prisiau tocynnau'n seiliedig ar faint o hyblygrwydd sydd ei angen (e.e. mae prisiau tocynnau ar gyfer archebu taith ar wasanaeth trên penodol yn is). Gallai hyn olygu bod cwsmeriaid sy'n dymuno cael hyblygrwydd llwyr ynghylch pryd y teithiant yn talu ychydig mwy nag yn awr

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ag ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Prisiau tocynnau wedi eu cynllunio fel nad oes angen prynu 'tocyn deuddarn' er mwyn cael y fargen orau. Ar hyn o bryd, mae achlysuron lle mae'n rhatach, wrth wneud taith o A i C, i brynu dau neu fwy o docynnau ar wahân e.e. gallai dau docyn (A-B a B-C) fod yn rhatach nag un tocyn (A-C). Pe byddai hyn yn cael ei newid gallai'r rheiny sy'n prynu tocynnau deuddarn ar hyn o bryd dalu ychydig mwy a gallai'r rheiny sy'n prynu tocynnau uniongyrchol ar hyn o bryd dalu ychydig llai.

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ag ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Prisiau tocynnau'n seiliedig ar annog teithio i lenwi seddi gwag (e.e. rhagor o fargeinion munud olaf i lenwi seddau sydd ar gael). Hyd yn oed os yw hyn yn golygu gwahanol deithwyr yn talu gwahanol brisiau tocynnau ar gyfer yr un daith.

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ag ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Prisiau tocynnau'n seiliedig ar deyrngarwch i deithwyr rheolaidd (e.e. gall teithwyr rheolaidd ennill gostyngiadau ar gyfer pryniadau'r dyfodol). Hyd yn oed os yw hynny'n golygu prisiau tocynnau uwch ar gyfer teithiau unigol gan ddefnyddio tocynnau un ffordd a dwy ffordd.

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ag ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Prisiau tocynnau sy'n darparu arbedion i rai grwpiau yn y gymdeithas (e.e. prisiau tocynnau is i rai grwpiau yn y gymdeithas fel pobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anableddau). Hyd yn oed os yw hyn yn golygu prisiau tocynnau ychydig yn uwch i deithwyr eraill.

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ag ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Prisiau tocynnau lle mae'r daith allan ac yn ôl yn seiliedig ar yr adeg o'r dydd y teithir (e.e. Tocynnau dwy ffordd yn cael eu disodli gan docynnau un ffordd wedi eu cyfuno'n hawdd, wedi eu prynu gyda'i gilydd, gan alluogi prisiau taith allan ac yn ôl i adlewyrchu adeg teithio, e.e. Tocyn brig ar gyfer y daith allan, tocyn allfrig ar gyfer y daith yn ôl).

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ag ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Bydd diwygio prisiau tocynnau rheilffordd yn golygu cydbwysu anghenion gwahanol gwsmeriaid ac mae'n annhebygol y bydd un dull yn gweddu i bawb. Pa un o'r tri dewis a ddisgrifir isod sy'n adlewyrchu orau eich dewis chi ar gyfer yr ystod o brisiau tocynnau rheilffordd fyddai ar gael?

Dewis A

Dim tocynnau ar ostyngiad, pris tocyn safonol yn is nac yn awr

- Bydd pris tocyn un ffordd rhwng dwy orsaf yn costio'r un faint bob amser.
- Ni fydd gwahaniaeth mewn pris rhwng teithio ar adegau prysur (brig) ac adegau llai prysur (allfrig).

Gallai hyn olygu:

- Bydd prisiau tocynnau is nag yn awr ar wasanaethau prysur.
- Bydd prisiau tocynnau uwch nag yn awr ar wasanaethau llai prysur.
- Mae trenau'n debygol o fod yn brysurach nag yn awr yn y cyfnod brig.

Dewis B

Prisiau tocynnau gostyngol fel yn awr, pris tocyn safonol fel yn awr

- Ar rai teithiau, bydd cost tocyn un ffordd rhwng dwy orsaf yn amrywio, yn yr un modd ag yn awr.
- Bydd tocynnau rhatach ar gael ar adegau llai prysur (allfrig) ar deithiau lle mae hyn yn cael ei gynnig ar hyn o bryd.
- Bydd gostyngiadau am archebu tocyn ar gyfer trenau penodol o flaen llaw ar deithiau lle mae hyn yn cael ei gynnig ar hyn o bryd.

Gallai hyn olygu:

- Bydd prisiau tocynnau yn debyg i yn awr ar wasanaethau prysur.
- Bydd prisiau tocynnau yn debyg i yn awr ar wasanaethau llai prysur.
- Mae trenau'n debygol o gludo'r un nifer o deithwyr ag yn awr.

Dewis C

Gostyngiadau mwy nag yn awr, pris tocyn safonol yn uwch nag yn awr

- Ar rai teithiau, bydd cost tocyn un ffordd rhwng unrhyw ddwy orsaf yn amrywio, yn yr un ffordd ag yn awr.
- Bydd y gwahaniaeth yng nghost tocyn un ffordd rhwng unrhyw ddwy orsaf ar adegau prysur (brig) a llai prysur (allfrig) yn fwy nag y mae yn awr.
- Bydd gostyngiadau ar archebu trenau penodol o flaen llaw yn fwy nag yn awr ond bydd tocynnau hollol hyblyg yn costio mwy.

Gallai hyn olygu:

- Bydd prisiau tocynnau uwch nag yn awr ar wasanaethau prysur.
- Bydd prisiau is nag yn awr ar wasanaethau llai prysur.
- Mae trenau yn debygol o fod yn llai prysur nag yn awr yn y cyfnod brig

Dewiswch yr opsiwn sy'n adlewyrchu orau beth sy'n well gennych ar gyfer y prisiau tocynnau rheilffordd sydd ar gael.

- Opsiwn A
- Opsiwn B
- Opsiwn C
- Dim yn gwybod/Dim barn

Ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn angenrheidiol iawn a 5 ddim yn angenrheidiol o gwbl, i ba raddau ydych chi'n ystyried ei bod hi'n angenrheidiol diwygio'r ffordd mae prisiau tocynnau rheilffordd wedi cael eu strwythuro ar hyn o bryd?

- 1 - Angenrheidiol iawn
- 2 - Eithaf angenrheidiol
- 3 - Dim yn angenrheidiol nac yn ddianghenraid
- 4 - Dim yn angenrheidiol iawn
- 5 - Dim yn angenrheidiol o gwbl
- Dim yn gwybod/Dim barn

Rhan 2: Prynu tocyn

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn am sut dylai teithwyr allu chwilio am, prynu a derbyn tocynnau rheilffordd. I ba raddau ydych chi'n meddwl y dylai pob un o'r dewisiadau canlynol gael eu hystyried?

Wrth ateb y cwestiynau hyn cymerwch fod:

- *Ystod prisiau tocynnau rheilffordd yn haws i'w ddefnyddio nag y mae ar hyn o bryd a bod pris tocyn rheilffordd ar gyfartaledd yn aros yr un peth.*
- *Rhai pobl yn talu mwy tra bo rhai yn talu llai.*
- *Mae'r dewisiadau a gyflwynir yn gysyniadau eang fyddai angen eu hystyried a'u mireinio ymhellach.*

Ddylai tocyn gostio'r un faint pa ffordd bynnag y byddwch yn ei brynu? Gallai teithwyr sy'n defnyddio e-docynnau (er enghraifft tocynnau ar ffonau symudol, cardiau teithio clyfar, ac ar gardiau banc digyswllt) dalu ychydig yn llai am eu taith i adlewyrchu'r arbedion cost i'r cwmni trên, tra byddai'r rheiny sy'n prynu tocynnau mewn gorsafoedd yn talu ychydig yn fwy.

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Gallai teithwyr sy'n gwneud yr un daith yn rheolaidd gael tocyn clyfar neu electronig ar gyfer pob taith a wnânt. Unwaith y mae cyfanswm cost yr holl deithiau yn cyrraedd uchafswm ni fydd rhaid iddynt dalu rhagor am weddill yr wythnos, mis neu flwyddyn. Mae hyn yn cael ei alw'n 'gap pris'. Mantais 'cap pris' yw fod teithwyr yn cael y pris tocyn gwerth gorau yn awtomatig ar gyfer pob taith unigol, a dim ond yn talu am y teithio a ddefnyddiant.

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Gallai cyfrifon ar-lein fod ar gael sy'n gallu cael eu defnyddio ar gyfer rheilffordd a mathau eraill o gludiant cyhoeddus e.e. bws, tram, trên tanddaearol a llogi beic. Byddai deiliaid cyfrifon yn gallu prynu, monitro, adolygu a newid trefniadau teithio ar-lein.

- Ystyriwch yn bendant
- Ystyriwch efallai
- Peidiwch ystyried
- Dim yn gwybod/Dim barn

Ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn angenrheidiol iawn a 5 ddim yn angenrheidiol o gwbl, i ba raddau ydych chi'n ystyried ei bod hi'n angenrheidiol diwygio'r ffordd y gellir prynu tocynnau?

- Angenrheidiol iawn
- Eithaf angenrheidiol
- Dim yn angenrheidiol nac yn ddianghenraid
- Dim yn angenrheidiol iawn
- Dim yn angenrheidiol o gwbl
- Dim yn gwybod/Dim barn

Rhan 3: Unrhyw sylwadau eraill

Hoffem i chi gael y cyfle i wneud unrhyw sylwadau eraill am y materion yr ydych chi wedi eu hystyried yn y cwestiynau blaenorol neu unrhyw beth arall yr hoffech chi ddweud am ddiwygio strwythur prisiau tocynnau. Defnyddiwch y blychau priodol a ddarperir isod.

Sylwadau ar y ffactorau rydych chi'n meddwl ddylai ddylanwadu ar strwythurau prisiau tocynnau rheilffordd e.e. prisiau tocynnau brig/allfrig; prisiau tocynnau o flaen llaw, neu unrhyw beth arall.

Sylwadau ar y ffactorau rydych chi'n meddwl ddylai ddylanwadau ar sut mae tocynnau yn cael eu prynu e.e. prynu ar-lein, tocynnau electronig, neu unrhyw beth arall.

Unrhyw sylwadau eraill.

Amdanoch chi

Hoffem wybod ychydig mwy amdanoch chi i'n helpu i ddeall sut mae barn pobl yn amrywio. Helpwch ni drwy ateb y cwestiynau canlynol.

Ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel unigolyn neu ar ran sefydliad? (Dewiswch un)

- Fel Unigolyn (ewch ymlaen)
- Ar ran sefydliad (ewch i dudalen 13)

Hoffem wybod am eich teithiau rheilffordd a'r mathau o docynnau rydych chi wedi eu defnyddio. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i'n helpu i ddeall y gwahaniaeth barn rhwng mathau gwahanol o ddefnyddwyr rheilffordd.

Yn y 12 mis diwethaf, ar gyfartaledd, pa mor aml ydych chi wedi teithio ar drên yn Lloegr, yr Alban neu Gymru? (Dewiswch un)

- O leiaf 5 gwaith yr wythnos
- 3-4 gwaith yr wythnos
- 1-2 waith yr wythnos
- Llai nag unwaith yr wythnos ond o leiaf unwaith y mis
- Llai nag unwaith y mis, ond o leiaf ddwy waith y flwyddyn
- Llai na dwy waith y flwyddyn, ond o leiaf unwaith y flwyddyn
- Dw i heb wneud taith drên yn y 12 mis diwethaf



Yn y 12 mis diwethaf, beth oedd y prif reswm dros eich taith drên yn Lloegr, yr Alban neu Gymru? (Dewiswch y prif reswm yn unig)

- Teithiau cymudo (teithiau i/o'r gwaith neu addysg)
- Teithiau busnes (teithiau wedi eu gwneud ar gyfer busnes ar ran eich cyflogwr)
- Teithiau hamdden
- Dw i heb wneud taith drên yn y 12 mis diwethaf

Pa un o'r gwasanaethau rheilffordd canlynol ydych chi wedi eu defnyddio yn y 12 mis diwethaf? (Dewiswch bob un sy'n gymwys)

- Gwasanaethau Intercity – gwasanaethau cyflymach sy'n cwmpasu pellterau mwy
- Gwasanaethau rhanbarthol – trenau lleol neu sy'n aros rhwng trefi a dinasoedd
- Gwasanaethau swbwrbaidd a dinas
- Dim yn Gwybod
- Dw i heb wneud taith drên yn y 12 mis diwethaf

Pa un o'r mathau canlynol o docyn ydych chi wedi eu prynu yn y 12 mis diwethaf ar gyfer teithiau trên yn Lloegr, yr Alban neu Gymru? (Dewiswch bob un sy'n gymwys)

- Tocyn tymor blynyddol
- Tocyn tymor Misol / Wythnosol
- Tocyn Unrhyw adeg / Cerdyn Teithio Diwrnod Unrhyw adeg (yn ddilys ar gyfer teithio ar unrhyw adeg ar unrhyw ddydd)
- Tocyn Allfrig / tocyn Uwch Allfrig / Cerdyn teithio Allfrig / Tocyn Penwythnos
- Tocyn o flaen llaw (yn ddilys ar gyfer teithio ar un trên wedi'i amseru'n benodol yn unig)
- Dim yn gwybod
- Dw i heb wneud taith drên yn y 12 mis diwethaf
- Arall (manylwch)

Pa un o'r canlynol ydych chi wedi eu defnyddio ar gyfer teithio rheilffordd? (Dewiswch bob un sy'n gymwys)

- Smartcard (e.e. Oyster yn Llundain)
- Cerdyn banc digyswllt (i deithio – yn hytrach na phrynu tocyn papur)
- Ffôn symudol (gyda thocyn wedi'i lwytho ar y ffôn)
- Dim un o'r uchod

Darparwch y wybodaeth ganlynol. Mae eich enw a chyfeiriad e-bost yn bwysig i helpu sicrhau bod yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn unigryw. Ni fyddant yn cael eu defnyddio i unrhyw ddiben arall. Bydd rhan gyntaf eich cod post yn ein helpu i ddeall y gwahaniaethau barn rhwng pobl sy'n byw mewn rhanbarthau gwahanol.

Eich enw llawn

Cyfeiriad e-bost

(Trigolion y DU yn unig) **Rhan gyntaf eich cod post e.e. D12, SW19**

Hoffem wybod ychydig amdanoch chi fel y gallwn ddadansoddi'r canfyddiadau fesul math o deithwyr a sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i strwythurau prisiau tocynnau rheilffordd neu werthu tocynnau yn rhoi unrhyw grwpiau mewn cymdeithas dan anfantais.

Pa un o'r grwpiau oedran canlynol ydych chi ynddo? (Dewiswch un)

- 16-18
- 19-25
- 26-34
- 35-44
- 45-54
- 55-59
- 60-64
- 65-69
- 70-80
- 81+
- Gwell gennyf beidio â dweud

Ydych chi'n: (Dewiswch un)

- Wryw
- Fenyw
- Arall
- Gwell gennyf beidio â dweud



I ba un o'r grwpiau canlynol ydych chi'n perthyn? (Dewiswch un)

- Grwpiau ethnig cymysg/lluosog
- Gwyn
- Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- Du, Affricanaidd/Caribiaidd neu Ddu Prydeinig
- Tsieineaidd
- Arab
- Dim yn gwybod
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall (manylwch):

Ydych chi wedi cael eich effeithio gan unrhyw gyflyrau neu salwch corfforol neu feddyliol yn parhau neu y disgwylir iddynt barhau 12 mis neu ragor? (Dewiswch bob un sy'n gymwys)

- Na: Dim un
- Ydw: Synhwyrdd (e.e. golwg, clyw)
- Ydw: Gwybyddol (e.e. dysgu, cymdeithasol, ymddygiad, cof)
- Ydw: Iechyd Meddwl
- Ydw: Corfforol (e.e. symudedd, stamina, anadlu, blinder, deheurwydd)
- Dim yn gwybod
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Ydw: Arall (manylwch):

Ewch i dudalen 14 i gael manylion sut i ddychwelyd eich ffurflen ymateb wedi'i llenwi.

Ynglŷn â'ch sefydliad

Hoffem wybod ychydig am y sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i'n helpu ni i ddeall unrhyw wahaniaethau barn rhwng gwahanol fathau o sefydliadau.

Pa un o'r dewisiadau canlynol sy'n disgrifio orau gategori eich sefydliad? (Detholwch y dewis mwyaf cymwys)

- Busnes bach (hyd at 49 o staff)
- Busnes maint canolig (50-249 o staff)
- Busnes mawr (150+ o staff)
- Llywodraeth leol
- Llywodraeth ganolog
- Sector cyhoeddus arall
- Trydydd sector / gwirfoddol / sefydliad elusennol
- Grŵp Gweithredu / Diddordeb
- Cynrychiolydd etholedig (AS, cynghorydd, ASE)
- Academia
- Arall (manylwch):

Ydy eich sefydliad yn gweithio o fewn neu i'r diwydiant rheilffordd?

- Ydy
- Nac ydy

Darparwch y wybodaeth ganlynol. Mae eich enw a chyfeiriad e-bost yn bwysig i helpu sicrhau bod yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn unigryw. Ni fyddant yn cael eu defnyddio i unrhyw ddiben arall. Bydd rhan gyntaf eich cod post yn ein helpu i ddeall y gwahaniaethau mewn barn rhwng sefydliadau wedi eu lleoli mewn gwahanol ranbarthau.

Eich enw llawn

Cyfeiriad e-bost

Enw eich sefydliad

(Sefydliadau wedi'u lleoli yn y DU yn unig) **Rhan gyntaf cod post eich sefydliad e.e. D12, SW19**

Os ydych chi'n fodlon i ni gysylltu â chi i'ch gwahodd ar y cyfeiriad e-bost uchod i weithdy i drafod y materion hyn ymhellach, nodwch eich cyfeiriad e-bost dewisol isod.



Diolch yn fawr

Diolch am ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Ochr yn ochr ag uwchraddiadau i wasanaethau, mae ystod o brisiau tocynnau haws i'w defnyddio yn allweddol i gyflawni cynllun tymor hir y diwydiant, yn benodol ein hymrwymiad i gynyddu bodlonrwyd cwsmeriaid.

Postiwch eich ffurflen ymateb wedi'i chwblhau yn ôl i'r cyfeiriad Rhadbost:

'Freepost EASIER FARES'

easierfares@britainrunsonrail.co.uk